**CYDAG**

**Tystiolaeth ar gyfer Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Cyflwyniad llafar - 10 munud**

**1**. Croesawa'r Gymdeithas y cyfle i gyflwyno tystiolaeth a diolchir i'r Pwyllgor am y gwahoddiad i wneud hynny.

**2**. Cyn cychwyn carwn yn gryno iawn gyfleu beth yw CYDAG. Mae teitl y Gymdeithas yn hunan esboniadwy. Mae'r teitl yn ymbarél i Gymdeithas o ysgolion cynradd a sefydlwyd yn 1999 a Chymdeithas o Ysgolion Uwchradd a sefydlwyd yn 1963. Heddiw y mae 220 ysgol gynradd a 55 ysgol uwchradd yn aelodau o'r Gymdeithas. Nod greiddiol y Gymdeithas yw hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

**3.** Yn gyffredinol croesawa CYDAG weledigaeth y Cynulliad a'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes o "greu Cymru gwirioneddol ddwyieithog". Cytuna CYDAG hefyd gyda'r datganiad "bod angen strategaeth gydlynol … os am gyflawni tasg mor uchelgeisiol".

**4**. Ers pedwar degawd bu'r math o ysgolion sydd yn aelodau o CYDAG yn gweithio i union 'run perwyl a diffinnir gan weledigaeth y Cynulliad. Credwn fod gan ysgolion CYDAG rôl werthfawr i'w chwarae wrth gydweithio gyda rhychwant o gyrff eraill gan gynnwys y Cynulliad i symud o'r sefyllfa fel ag y mae heddiw tuag at y weledigaeth o greu Cymru ddwyieithog.

**5**. Yn ogystal â gweld rôl arbennig i ysgolion CYDAG, cred y Gymdeithas bod gan bob darparwr yn y sector cyn-ysgol i Addysg Uwch rôl i chwarae yng ngwireddiad y weledigaeth. Yn wir, cred CYDAG na all y weledigaeth gael ei gwireddu heb ddatblygu a chydgyfeirio rôl pob darparwr i'r perwyl hyn.

**6**. I fod yn hollol glir, yn y sector ysgolion, er enghraifft, cred CYDAG bod gan bob un o ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru rôl anhepgor i'w chwarae. Os na chynhwysir hynny yn strategaeth y Cynulliad bydd y dasg "uchelgeisiol" yn un mwy uchelgeisiol fyth.

**7**. Yn y cyflwyniad hwn rhown y prif bwyslais ar y materion sydd yn perthyn yn agos i waith beunyddiol ysgolion cynradd ac uwchradd CYDAG.

**8. Cyfle Cyfartal**

Cefnoga CYDAG egwyddor cyfle cyfartal greiddiol cylch gwaith y Cynulliad. Yn benodol yng nghyd-destun Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg mewn addysg carwn nodi'r canlynol o safbwynt hawliau rhieni, argaeledd cyfartal a darpariaeth gyfartal.

- Ategir y datganiad ym mhapur y Cynulliad [ELL 19-01(p2)] yn cefnogi **hawl rhieni** i ddewis y caiff eu plant eu haddysg yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cred y Gymdeithas bod angen mynd ymhellach na hyn trwy **ystyried graddau o brofiadau trochi iaith ar gyfer pob plentyn oed meithrin a blynyddoedd cynnar**. Dyna fyddai un o'r ffyrdd mwyaf effeithlon i osod sail llawer gadarnach i sicrhau Cymru ddwyieithog.
- I'r perwyl hwn, dylid **cynyddu'r cyfleoedd** sydd yn bodoli i rieni i wneud y dewis hwn o ran addysg meithrin a blynyddoedd cynnar. Mae yna nifer o ardaloedd yng Nghymru lle mae'r gofod sydd ar gael ar gyfer **y ddarpariaeth feithrin Gymraeg a dwyieithog eisoes yn orlawn a lle mae rhieni a phlant yn cael eu troi i ffwrdd**. Hynny yw, nid oes cyfle cyfartal yn yr ardaloedd lle mae hyn yn digwydd. Ceir sefyllfaoedd hefyd lle mae Addysg Feithrin ar gael drwy gyfrwng y Saesneg ond heb fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Y dewis i rieni mewn sefyllfaoedd tebyg i hyn yw Addysg Feithrin Saesneg yn rhad ac am ddim neu dalu am Addysg Feithrin Gymraeg rhan amser, os ydyw ar gael. Nid yw hyn yn cynnig cyfle cyfartal.
- Mae angen sicrhau **cyfle cyfartal ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth**: adeiladau, adnoddau dysgu aml-gyfrwng, dogfennaeth gynhaliol a'r ystod lawn o offerynnau asesu. Dylid sicrhau bod pob pwnc a maes o fewn y gyfundrefn addysg a hyfforddi yn cael ei asesu a'i achredu yn llawn trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 9. Cryfhau a datblygu llwyddiannau

Mae yna le i gydnabod ac, yn wir, i ddathlu twf addysg Gymraeg yn ystod y degawd diwethaf. Wedi dweud hynny, ar daith yr ydym ac mae yna lwybr heriol o'n blaen os ydym i wireddu gweledigaeth y Cynulliad. Dyma nodi rhai cerrig milltir.

- Bu'r penderfyniad i gynnwys **Cymraeg yn bwnc gorfodol** i bob plentyn a pherson ifanc o 5 i 16 oed yn un o'r pethau pwysicaf a ddigwyddodd i geisio adfer tranc yr iaith Gymraeg a rhoi unrhyw obaith i greu Cymru ddwyieithog.
- Dylid **talu teyrnged** i waith caled, gwerthfawr a llwyddiannus athrawon cynradd ac Athrawon Bro. Roedd y gwaith a gyflawnwyd a'r modd y'i gwnaed yn arwrol.
- Ond mae un dangosydd arwyddocaol sy'n achos o gonsýrn mawr. Hwnnw yw'r ffaith bod **40% o blant 11 oed yn troi eu cefn ar addysg trwy gyfrwng ei mamiaith wrth drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3**. Mae angen ymateb grymus a chyflym i weddnewid y sefyllfa argyfyngus hon. Awgryma CYDAG bod tri pheth y gellid eu gwneud o fewn amser cymharol fyr i leihau neu hyd yn oed ddileu y colli tir hwn.

- Yn gyntaf, dylid sicrhau, trwy'r Gorchymyn ar gyfer y Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, **bod yn rhaid i blentyn a astudiodd y rhaglen astudio iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 2 barhau i astudio'r rhaglen iaith gyntaf yn y sector uwchradd**. Dylid sicrhau bod **ysgolion uwchradd yn gorfod darparu ar gyfer hynny**. Mae hyn yn un peth y gallai'r Cynulliad ei wneud a fyddai'n arbed y golled anferth yn abledd dwyieithrwydd plant 11 oed ac yn atal y gwastraff o'r buddsoddiad o amser, ymdrech ac arian a roed i mewn yn y sector cynradd.
- Yn ail, dylid adolygu'r **rhyngberthynas rhwng rhaglenni astudio ail iaith ac iaith gyntaf**, er mwyn sicrhau cynnydd esmwythach ar hyd y continwwm ieithyddol o waelod yr ystod ail iaith hyd at begynau'r rhaglen iaith gyntaf.
- Yn drydydd, dylid, ar fyrder, fynd i'r afael â **datblygu dulliau asesu deuol** a fyddai'n mesur cyrhaeddiad plentyn ar raddfa ail iaith a'i gyrhaeddiad cyfatebol ar y raddfa iaith gyntaf. Cynigir y gellid ffocysu ar gyrhaeddiad o ganol yr ystod cyrhaeddiad ail iaith i fyny. Beth fyddai pwrpas asesiad deuol o'r fath?
- Byddai'n:
    - **gwobrwyo** ymdrech a llwyddiant dysgwr ail iaith a'i athrawon
    - **codi'r disgwyliad** i'r plentyn symud ymlaen i wella'i Gymraeg gan ddangos iddo'r potensial i ennill cydnabyddiaeth ar y raddfa iaith gyntaf
    - rhoi strwythur eglur i alluogi'r **sector uwchradd i adeiladu ar y cynnydd** a wnaed yn y sector cynradd
    - rhoi **anogaeth i rieni** i gefnogi astudiaeth barhaus o'r Gymraeg hyd at 16 oed
    - rhoi **cydnabyddiaeth gynyddol** i ddisgybl, rhiant ac athrawon uwchradd ar y raddfa ail iaith tra'n cyfatebu hyn at gyrhaeddiad iaith gyntaf gan gynnig anogaeth i godi safonau a heb osod nenfwd.

**Cred CYDAG y byddai'r tri cham yma yn gwneud cyfraniad sylweddol iawn i leihau os nad dileu y gwaedlif arwyddocaol a gwastraffus sy'n bodoli ar hyn o bryd. Gallai'r camau hyn gyfrannu cymaint o ddatblygiad a chynnydd pellach ag y gwnaeth y penderfyniad gwreiddiol i gynnwys y Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.**

## 10. Fframweithiau Cwricwlaidd

- **Croesawodd** CYDAG yn helaeth y weledigaeth a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn **"Y Wlad sy'n Dysgu"**.
- Er hynny, cododd rhai o'r syniadau cyffrous a gyflwynwyd **beth amheuon**. Mae rhai o'r rheini yn cyd-gyffwrdd â ffocws Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg. Yng Nghyfnod Allweddol 4 ac, yn wir, yng Nghyfnod Allweddol 3, cyfeiriwyd at y budd allai ddeillio o ganiatáu mwy o "hyblygrwydd" i lunio cwricwlwm ysgol amgen i gwrdd â gofynion lleol a diddordeb a budd pob math o ddisgybl. Cred CYDAG bod llawer i ddweud dros hynny. Fodd bynnag, gyr CYDAG bod rhai carfanau, gan gynnwys rhai a ymatebodd i'r Papur Gwyn, yn dehongli hyn fel cyfle i **ymylu'r Gymraeg yn y cwricwlwm**, yn enwedig felly mewn rhai ysgolion lle mai pwnc yn unig yw'r Gymraeg ac

nid yn gyfrwng dysgu o gwbl. Gofynnir i’r Pwyllgor i fod yn llawn ymwybodol o hyn ac i sicrhau bod y strategaeth a gaiff ei ddatblygu **yn diogelu lle cyflawn y Gymraeg yng nghwricwlwm pob ysgol yng Nghymru tan 16 oed** gyda statws sy’n gyfartal (ar gyfer ail iaith a iaith gyntaf) gyda dysgu Saesneg fel pwnc.

- Croesawa CYDAG y bwriad o ddatblygu bagloriaeth benodol i Gymru. Mae gwaith y peilot ond megis dechrau, ac felly nid yw’n briodol mynegi barn am y cynlluniau sydd o dan drafodaeth. Fodd bynnag, carai CYDAG gynnig y sylwadau hyn i’r Pwyllgor a hefyd i’r tîm Peilot, sef, ei bod **yn hollol greiddiol bod parhad o astudiaeth o’r Gymraeg a bod yna ogwydd pendant o’r Cwricwlwm Cymreig yn cael eu cynnwys yn fframwaith y fagloriaeth** er mwyn sicrhau dilyniant o fewn fframwaith cwricwlaidd Cymru nid yn unig o 5 i 16 ond hefyd **o 14 i 19 ac yna sicrhau cyfleoedd cyfartal ac argaeledd parod gydol oes.**

**11. Parhad a Dilyniant Ôl-16**

G•yr y pwyllgor bod yna ddiffyg dilyniant dybryd ac echrydus yn y ddarpariaeth wrth i bobl ifanc adael ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ar ôl 16 oed. Mae’r diffyg darpariaeth yn hollol amlwg yn y sector Addysg Bellach, Hyfforddiant ac Addysg Uwch.

Mae CYDAG yn awyddus i gefnogi bwriad ELWa i weithredu ei weledigaeth i gynnwys dwyieithrwydd fel thema trawsdoriadol o fewn ei strategaeth yntau. Gan fod dwyieithrwydd yn thema holl bwysig yng ngwaith ELWa, awgryma CYDAG y dylid **cynnwys targedau meintiol ar gyfer ymestyn a chynyddu’r ddarpariaeth yn y sector ôl-16 i addysg gydol oes ar gyfer pob sector** ond yn enwedig ar gyfer Addysg Bellach, hyfforddiant mewn canolfannau hyfforddi ac yn y gweithle, ac Addysg Uwch.

**Mae yna ddiffyg <u>adnoddau addysgu</u> ac <u>adnoddau dynol</u> ar gyfer y ddarpariaeth draws sector ôl-16**.

Awgryma CYDAG bod angen datblygu **Canolfan Adnoddau** dwyieithog a chyfrwng Cymraeg Genedlaethol a bod hon yn tynnu at ei gilydd ac yn grymuso ymdrechion canolfannau eraill megis ACCAC, CBAC, Sgiliaith a Dysgu. Cynhwysir **adnoddau aml-gyfrwng** ymhlith yr anghenion. Mae defnydd priodol o **ddeunydd TGCh** graenus mor allweddol i ddatblygu dulliau addysgu a dysgu cyfoes ac yn arf mor bwerus i weddnewid canfyddiad pobl o statws yr iaith.

Diffyg arall sy’n ymddangos yw’r **diffyg o ran adnoddau dynol**. Hynny yw athrawon, hyfforddwyr galwedigaethol a darlithwyr sy’n medru darparu cyrsiau dwyieithog a Chymraeg eu cyfrwng. Mae’r diffyg yn y gweithlu hwn hefyd yn cynnwys yr angen am fwy o athrawon a thiwtoriaid i ddysgu Cymraeg, yn enwedig felly fel tiwtoriaid ail iaith a staff ar gyfer dysgu Cymraeg i Oedolion.

Sut y gellid gwneud hynny? Awgryma CYDAG bod y Cynulliad yn parhau gyda ac yn **ymestyn y strategaeth o gynnig bwrsari** i bobl sy'n hyfforddi neu ail-hyfforddi mewn meysydd lle mae yna ddiffyg dybryd ar hyn o bryd. Mae angen sail data ymchwil ddilys a chyflawn i rag-gynllunio recriwtio a hyfforddi myfyrwyr, athrawon, hyfforddwyr yn y gweithle, a darlithwyr sy'n newydd i'r proffesiwn.

Ar hyd yr un llinellau â sefydlu Canolfan Adnoddau Genedlaethol, dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu **Canolfan Genedlaethol ar gyfer darparu Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus** y rhai sy'n gweithio yn y sectorau addysg a hyfforddiant dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

Bellach, mae bron pob disgybl 16 oed ( 98.4% yn ôl ffigurau'r Cynulliad) yn astudio Cymraeg fel ail iaith neu iaith gyntaf**. Felly, mae trwch poblogaeth pobl ifanc 16 oed yn ddwyieithog i ryw raddau neu gilydd yn barod**. O gymharu â'r cyfnod cyn y Cwricwlwm Cenedlaethol, mae hyn yn ffaith syfrdanol ac yn un y dylai pawb a fu ynghlwm ag ef ddathlu yn fawr.

Fodd bynnag, man cychwyn yn unig yw'r sefyllfa bresennol ar gyfer adeiladu tuag at wireddu'r weledigaeth o greu Cymru ddwyieithog. Yn unol â gweled iad y Cynulliad **mae angen cydio yn y llwyddiant hwn ac adeiladu arno**. O fewn fframwaith cwricwlaidd 14-19 oed, dylai'r Cynulliad ystyried **cynnwys parhau gydag astudiaeth o'r Gymraeg (ar yr ystod ail iaith neu iaith gyntaf) fel elfen orfodol o bob cwrs a hyfforddiant.**

**12. Cyfranwyr a Chatalyddion Pwysig Eraill**

Ochr yn ochr a chyn bwysiced â'r gyfundrefn addysgu a hyfforddi ffurfiol y mae nifer o gyfranwyr eraill.

Anogir y Pwyllgor i gynnwys a datblygu rôl darpariaeth a chyfraniad sylweddol nifer o gyrff gan gynnwys:

- y mentrau iaith
- darparwyr Cymraeg i Oedolion
- datblygu Canolfannau Dysgu Cymunedol
- a llu o gyrff yn y sector gwirfoddol gan gynnwys yr Urdd, Mudiad y ffermwyr Ifanc ac ati.

Mae'r holl gyfranwyr hyn yn allweddol i ddatblygu mwy o siaradwyr hyderus o'r iaith Gymraeg trwy gyfrwng ystod o gyfleoedd ar hyd y sbectrwm dysgu anffurfiol a ffurfiol.

**13. Meini Adeiladu Eraill**

Cyn cloi nodwn yr angen i 'r Pwyllgor roi ystyriaeth i faterion tebyg i'r canlynol:

- Creu **Seiat-Doethion** (*Thinktank*) annibynnol gyda statws cenedlaethol o'r radd flaenaf. Siars y Seiat byddai creu blaen gynlluniau beiddgar a radical o fewn strategaeth gydlynus ac eglur fel sydd gan y pwyllgor mewn golwg. Byddai'r Seiat yn hyrwyddo ymhellach statws rhyngwladol Cymru ymhlith arbenigwyr ieithyddol ac yn cynyddu ein gallu i adeiladu ar y llwyddiannau a sicrhawyd gennym yn barod.
- Gweithredu cynllun i ddwyn sylw i **fanteision dwyieithrwydd** yn ddiwylliannol ac yn economaidd gan gynnwys tanlinellu cyfraniad datblygu dwyieithrwydd unigolion i ddyfnhau eu dealltwriaeth cysyniadol ac i greu sail gref i ddysgu ieithoedd eraill. Yn wir, gellid ystyried ymestyn gweledigaeth ganolog y Cynulliad i un i greu'r Gymru ddwyieithog a fydd yn **arddel amlieithrwydd** i gyfran uchel o'r boblogaeth.
- **Adolygu swyddogaeth** a rôl nifer o chwaraewyr allweddol yn ein gwlad fechan: ACCAC, ELWa, CCAU, CBAC, BIG ac Estyn, i enwi rhai. Mewn gwlad sydd â nifer llai o ysgolion uwchradd nag ambell i AALl yn Lloegr, mae yna le i holi os oes gwell ffyrdd o weithredu mewn ffordd a fydd yn gost effeithiol ac, yn bwysicach, yn addysgol effeithiol.
- Yn sgil llunio strategaeth i greu Cymru ddwyieithog, anogir y Pwyllgor i ystyried adolygu'r Ddeddfwriaeth berthnasol yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod pob chwaraewr yn gweithredu'r strategaeth yn llawn gan gynnwys pob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru.
- Cynigia CYDAG y dylai'r strategaeth gynnwys datblygiad modelau o bedagogi dwyieithog o safbwynt y dysgwyr a'r addysgwyr. Dylai hyn gynnwys modelau i helpu ac i gynnal hwyr ddyfodiad di-Gymraeg o du allan i Gymru i ymsefydlu mewn cyfundrefn lle y bydd dwyieithrwydd yn cael mwy o sylw. Hefyd, yn ystod gweithrediad treigl strategaeth y Cynulliad, bydd angen darparu llawer mwy o gyfleoedd i ddysgwyr drosglwyddo o sefyllfaoedd gymharol uniaith i rai mwy dwyieithog. Er enghraifft gallai hyn gynnwys modelau gwahanol ar gyfer llwyr ymdrochi dysgwyr ar gyfnodau penodol yn eu gyrfa ysgol e.e. yn 11oed.
- Yn olaf, os yw'r strategaeth i fod yn un bwerus a chydlynus, bydd angen ymrwymo gwariant a buddsoddiad sylweddol dros gyfnod hir o amser e.e. deng mlynedd. Byddai hyn yn cynnig gwell cyfleoedd i gynllunwyr, rheolwyr a phobl ar lawr dosbarth/canolfan hyfforddi ganolbwyntio ar wneud i'r strategaeth lwyddo heb orfod meddwl a phryderu am argaeledd ariannu tymor byr yn barhaus.

## 14. Cloi

**Diolchir i'r pwyllgor am y cyfle i gyflwyno'r sylwadau hyn.**

**Cydnabydda CYDAG bod y cynfas yn un eang ac mae'r Gymdeithas yn ymrwymo i weithio gyda llu o gydchwaraewyr a all gyfrannu at lwyddiant gweledigaeth y Cynulliad, y Pwyllgor a'r Gweinidog.**

**Mae'n amlwg bod nifer o ddulliau gweithredu yn rhai tymor canol a hir dymor.**

**O’r hyn oll a gyflwynwyd yn y cyflwyniad hwn carai CYDAG awgrymu y byddai gweithredu ar fyrder i weithredu’r tri cham a danlinellwyd yn adran 9 o’r cyflwyniad yn dwyn canlyniadau mewn byr o amser tra bo’r prosesau eraill yn cael eu sefydlu a’u gweithredu ochr yn ochr â hynny.**

**CYDAG**

**CYMDEITHAS YSGOLION DROS ADDYSG GYMRAEG**